Cartrefi Cymunedol Cymru | Community Housing Cymru

# Arweinydd Llywodraethu a Gweithrediadau

## Rhan-amser - 28 awr
## £48,000 pro rata

**Dyddiad cau:** 9am,11 Mai 2026


**Ymholiadau cyffredinol**

www.chcymru.org.uk

enquiries@chcymru.org.uk



Cofrestrwyd dan Ddeddf Cwmnïau: 1985

Rhif Cofrestru: 2380564

Rhif Cofrestru Elusen: 1128527

# Am CCC

## Cartrefi Cymunedol Cymru (CCC) yw llais cymdeithasau tai yng Nghymru.

Ni yw'r corff cynrychioliadol ar gyfer cymdeithasau tai yng Nghymru, gyda 100% o landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (LCCau) yn aelodau.

Ein gweledigaeth ar y cyd yw gwneud Cymru yn wlad lle mae tai da yn hawl sylfaenol i bawb.

Mae ein haelodau'n gweithio ledled Cymru, gan ddarparu cartrefi a gwasanaethau i ystod eang o bobl. Fel eu corff cynrychioliadol, rydym yn ymladd am y pethau y mae arnynt eu hangen i gefnogi eu cymunedau, ac i sicrhau y gallwn gyflawni ein gweledigaeth gyda'n gilydd.

Fel llais dylanwadol, rydym yn gweithio i sicrhau cyllid sefydlog a digonol, ochr yn ochr â fframwaith polisi sy'n cefnogi buddsoddiad mewn cartrefi newydd a phresennol a gwasanaethau cymorth. Rydym hefyd yn gweithredu fel canolbwynt i ddod ag aelodau at ei gilydd i ddod o hyd i atebion ar y cyd i'r cyfleoedd a'r heriau a wynebwn.

Rydym yn cael ein hariannu'n bennaf gan y ffioedd aelodaeth y mae ein haelodau'n eu talu i fod yn aelodau o CHC, ond rydym hefyd yn cynnal cyfres o gynadleddau ac yn gweithio gyda nifer o bartneriaid masnachol dethol.

Darllenwch fwy amdanom yma.

## Fel sefydliad rydym yn ymroddedig i ddod yn gyflogwr rhagorol.

Mae Cartrefi Cymunedol Cymru yn sefydliad sy'n gweithio o bell, gan roi'r rhyddid i staff gyflawni eu swyddi pryd a lle maent yn gweithio orau ar sail dydd i ddydd.

Rydym yn gweithio mewn ffordd hybrid, gyda'r rhan fwyaf o'n tîm staff yn dewis treulio peth amser yn y swyddfa bob wythnos yn seiliedig ar eu dewisiadau eu hunain ac anghenion y busnes. Ochr yn ochr â hyn, rydym yn cyfarfod yn rheolaidd mewn timau, fel sefydliad cyfan ac gyda'n haelodau yn ein swyddfa â gwasanaeth ac mewn lleoliadau eraill ar gyfer trafodaethau a digwyddiadau wyneb yn wyneb. Bydd angen i chi fod yn barod i deithio i Gaerdydd yn rheolaidd ac yn achlysurol i rannau eraill o Gymru.

Mae ein diwylliant a'n gwerthoedd yn bwysig i ni, a rydym yn falch i gael tîm staff sy'n ymroddedig i'n cenhadaeth a hefyd yn angerddol am y gwaith sydd ei angen i sicrhau cynnydd.

Gyda thua 20 o aelodau staff, rydym yn sefydliad gwerthfawr ac effeithiol sydd ag adnoddau da. Dewch i gwrdd â'r tîm yma.

## Ein Gwerthoedd

**Uniondeb** 🤝 Cawn ein gyrru gan ein hangerdd a'n diben i gefnogi ein haelodau i wella'r cartrefi da, fforddiadwy sydd ar gael i bobl yng Nghymru. Cymerwn y cyfrifoldeb i fod yn llais y sector o ddifri. Rydym yn ystwyth ac yn dryloyw yn sut y cyflawnwn anghenion ein haelodau.

---

**Effaith** 🚀 Rydym yn hyblyg, chwilfrydig a chreadigol ac mae gennym ymroddiad i ddatrys heriau. Rydym yn dîm bach sy'n cael effaith fawr, yn gyrru cynnydd i sicrhau'r canlyniadau gorau drwy gefnogi,  herio ac ysbrydoli ein gilydd.

---

**Cynhwysiant** ❤️ Rydym yn ymroddedig i degwch, cynhwysiant ac amrywiaeth.

---

## Am y swydd

Arweinydd Llywodraethu a Gweithrediadau yw un o'r rolau allweddol yn ein tîm. Gan adrodd i'r Prif Weithredwr, bydd deiliad y swydd yn gweithredu fel Ysgrifennydd ein Cwmni. Mae'r rôl hon yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, ac yn sicrhau bod ein llywodraethu corfforaethol yn effeithiol ac yn cadw at safonau uchel.

Bydd y rôl hon hefyd yn arwain y gwaith o gyflawni prosiectau corfforaethol allweddol ac yn goruchwylio'r swyddogaeth cymorth busnes i sicrhau cymorth gweinyddol a PA o ansawdd uchel i'r Prif Weithredwr a byrddau a phwyllgorau CHC.

I'r unigolyn cywir, mae'r rôl hon yn cynnig cwmpas enfawr i ddatblygu sgiliau allweddol ymhellach ac i ddylanwadu ar rediad a datblygiad sefydliad sydd ar flaen y gad yn yr ymgyrch dros sicrhau bod tai da yn hawl i bawb sy'n byw yng Nghymru.

## Amcanion

- Gweithredu fel Ysgrifennydd y Cwmni, gan sicrhau bod Cartrefi Cymunedol Cymru (CCC) yn cydymffurfio'n llawn â'r Comisiwn Elusennau, Tŷ'r Cwmnïau, a'r holl ofynion cyfreithiol/rheoliadol.
- Darparu cymorth llywodraethu lefel uchel i'r Bwrdd (Byrddau) a'i Bwyllgorau, gan sicrhau bod y sefydliad yn cael ei redeg yn effeithiol, yn dryloyw ac yn unol â rheoliadau.
- Arwain y gwaith o gyflawni prosiectau corfforaethol perthnasol a nodwyd, gan sicrhau eu bod yn cael eu rheoli'n effeithiol ac yn cyd-fynd ag amcanion strategol CCC.
- Gweithredu fel y Swyddog Diogelu Data (SDD), gan ddarparu arbenigedd a goruchwyliaeth mewn perthynas â phreifatrwydd a diogelwch data.
- Goruchwylio'r swyddogaeth "Cymorth Busnes", gan sicrhau cymorth gweinyddol a PA o ansawdd uchel i'r Prif Weithredwr a'r Bwrdd trwy reoli'r Cydlynydd Cymorth Busnes a Gweithredol (CCBG).

# Manyleb person

**Isod mae rhestr o'r gofynion sydd eu hangen i ymgymryd â'r swydd hon. Bydd hyn yn ffurfio rhan allweddol o'r broses ddethol a dylai eich cais arddangos eich gallu i gyflawni'r meini prawf hyn.**

## Hanfodol

- Profiad profedig mewn rôl Llywodraethu ac Ysgrifennydd Cwmni, gyda dealltwriaeth gref o gyfraith elusennau a chwmnïau.
- Profiad amlwg o Reoli Prosiectau, gyda'r gallu i gymryd rôl arweiniol wrth gyflawni mentrau corfforaethol.
- Profiad o reoli llinell, gyda hanes o gefnogi a datblygu staff.
- Sgiliau ysgrifennu eithriadol, gyda'r gallu i gynhyrchu cofnodion a phapurau bwrdd proffesiynol o ansawdd uchel.
- Gwybodaeth gref am Ddiogelu Data (RCDD) a phrofiad o reoli cydymffurfiaeth yn y maes hwn.

## Dymunol

- Cymhwyster proffesiynol mewn Llywodraethu neu Reoli Prosiectau (e.e. CGI/ICSA, PRINCE2).
- Profiad o reoli risg a chynnal fframweithiau sicrwydd a risg corfforaethol.
- Gallu i siarad ac ysgrifennu yn Gymraeg.

# Buddion

- **Tâl:** Cyflog: £48,000 pro rata
- **Oriau:** Mae'r swydd yn seiliedig ar 28 awr yr wythnos – gweithio hyblyg.
- **Cyfnod prawf a goruchwyliaeth:** Chwe mis o gyfnod prawf.
- **Campfa:** £25 o gymhorthdal fesul mis.
- **Buddion:** Darpariaethau estynedig ar gyfer salwch, mamolaeth/mabwysiadu a dileu swydd.
- **Pensiwn:** Cynllun cyfraniadau diffiniedig y Cynllun Pensiwn Tai Cymdeithasol. Cyfraniadau cyflogwr o uchafswm o wyth y cant.
- **Dysgu a datblygu:** cynnig hael ar gyfer yr holl staff a chyfleoedd i wneud cais am hyfforddiant penodol i weddu i'r swydd.
- **Cynllun iechyd arian:** Cynllun iechyd arian y telir amdano (Simply Health).
- **Gweithio o unrhyw le:** Bydd egwyddor 'lleoli ar gyfer y diwrnod' yn cael ei dilyn (gan alluogi staff i ddewis ble yn y DU y byddent yn gweithio orau).
- **Gwyliau:** 25 diwrnod yn codi gan un diwrnod am bob blwyddyn o wasanaeth a gwblheir, hyd at uchafswm o 30 diwrnod a phob gwyliau cyhoeddus (pro rata ar gyfer staff rhan-amser) gyda phedwar diwrnod ychwanegol i ffwrdd yn ystod gwyliau'r Nadolig a'r Flwyddyn Newydd.

# Sut i wneud cais

### Mae'r manylion dilynol yn y pecyn swydd hwn: disgrifiad swydd, manyleb person a gwybodaeth am delerau ac amodau.

1. **Ffurflen gais,** y bydd angen i chi ei llenwi yn amlinellu mewn dim mwy na 800 gair sut ydych yn ateb y meini prawf profiad a nodir yn y rhan 'yr hyn rydym yn edrych amdano' o'r fanyleb swydd a pham eich bod eisiau'r swydd.
2. **Mae'n RHAID i chi hefyd gyflwyno CV wedi ei deilwra** yn ymwneud â'ch cais am y swydd hon (dim mwy na thair tudalen).
3. **Ffurflen cyfle cyfartal.** Ni chaiff y ffurflen hon ei defnyddio ar unrhyw gam o'r broses recriwtio a chaiff ei gwahanu oddi wrth eich ffurflen gais yn syth ar ôl ei derbyn. Bydd unrhyw wybodaeth a roddir ar y ffurflen yn parhau'n gyfrinachol a dim ond ar gyfer dibenion monitro i asesu effeithlonrwydd ein polisi cyfle cyfartal y caiff ei defnyddio.

Os hoffech gael sgwrs anffurfiol am y swydd wag, cysylltwch â Stuart Ropke, Chief Executive

Dylid anfon y ffurflen wedi'i llenwi, CV a'r ffurflen cyfle cyfartal drwy e-bost wedi'i marcio yn **Preifat a Chyfrinachol – Arweinydd Llywodraethu a Gweithrediadau** to recruitment@chcymru.org.uk by 9am, 11 Mai 2026.

Caiff pob ffurflen ei chadw am chwe mis yn unol ag arfer gorau i sicrhau y gallwn roi adborth i ymgeiswyr aflwyddiannus ac i gefnogi'r sefydliad pe byddid yn dod â hawliad yn ei erbyn.

- Caiff y rhestr fer ei llunio ar 11 Mai 2026.
- **Cynhelir cyfweliadau ar 18 a 20 Mai 2026.** Bydd opsiynau cyfweld wyneb yn wyneb a chyfweliadau rhithiol.

Edrychwn ymlaen at dderbyn eich cais wedi'i gwblhau.

## Mae Cartrefi Cymunedol Cymru yn ymroddedig i gydraddoldeb ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth

Dylid nodi mai dim ond cyn cyfweliad y caiff CVs eu hadolygu ac na chânt eu hystyried fel rhan o broses ddechreuol llunio rhestr fer. Fodd bynnag, os daw nifer fawr o geisiadau i law, gellir defnyddio CVs i gynorthwyo wrth lunio rhestr fer o ymgeiswyr ar gyfer y cam cyfweliadau. Caiff gwybodaeth bersonol allweddol tebyg i enw, oedran, sefydliadau addysgol ac yn y blaen eu tynnu ymlaen llaw.

Caiff gwybodaeth bersonol allweddol a gynhwysir o fewn datganiadau personol hefyd eu tynnu cyn cael eu hystyried ar gyfer llunio'r rhestr fer ddechreuol. Byddem yn ddiolchgar pe gallai ymgeiswyr osgoi cynnwys y pethau hyn yn y lle cyntaf.

Croesewir ceisiadau yn neilltuol gan bobl anabl a phobl ddu a lleiafrif ethnig. Rydym yn gwarantu cyfweld â'r ymgeiswyr hyn sy'n cyflawni'r isafswm meini prawf ar gyfer y swydd.

Rydym eisiau i chi gael pob cyfle i ddangos eich sgiliau, gallu a photensial. Cysylltwch â ni os gwelwch yn dda os ydych angen unrhyw gymorth neu addasiadau rhesymol i'r broses gais.